CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
6 Mehefin 2018, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, N Jones, A W Mummery, E Williams, R Davies, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Edwards, M Jones (Cyngor Sir), R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod 16.05.18 Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng N Jones yn cynnig a Cyng A W Mummery yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Niweidio'r ffens rhwng 5 a 11 Bryn Ffynon** - Mae Mrs Parry wedi derbyn pris am y gwaith ac wedi ei hanfon ymlaen at y Cyngor Sir
4.2	**Yswiriant a Treth y Ganolfan** - Mae'r Cadeirydd wedi derbyn cadarnhad gan y Cyngor Sir - nid oes angen talu treth ar y Ganolfan. Bydd y Clerc yn trefnu i'r Cyngor Sir anfon ffurflen gais i bwyllgor y Ganolfan. Hefyd, bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir ynghylch y yswiriant.
4.3	**Sedd Wâg -** Derbyniodd y Cyngor ymddiswyddiad y Cynghorydd Richard Edwards a chyd-etholodd ddau aelod newydd Owain Evans a Dewi Gwyn
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C23J/ECON Cais llawn i newid defnydd siop y Ganolfan Arddio yn iard adeiladwyr/swyddfa (Sui Generis) ynghyd a dymchwel y tai gwydr cyfredol, codi swyddfa/depo newydd ac altro'r fynedfa a gosod gwaith trin carthffosiaeth yn Star Nurseries, Star - dim sylwadau
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Anglesey Computer Solutions - Darllenwyd ebost gan Anglesey Computer Solutions yn cynnig gwneud newidiadau i wefan y Cyngor i wneud a GDPR (General Data Protection Regulation). Bydd y Clerc yn cysylltu â'r cwmni i ofyn yn union pa newidiadau fydd yn cael ei gwneud i'r wefan
6.2	Fforwm Iaith Môn - Darllenwyd llythyr gan Cadeirydd Fforwm Iaith Môn yn atgoffa cynghorau lleol i defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Dywedodd y Clerc nad yw'r archwiliwr mewnol wedi cwblhau ei archwiliad a bydd angen i'r cyngor dderbyn ei adroddiad cyn ei anfon i'r archwilydd allanol (BDO). Gan y bydd y Clerc yn cael llawdriniaeth, bydd yn gofyn i BDO am fwy o amser
	Llofnod **Cadeirydd** **01.08.18**

8	**MATERION ERAILL**
	Dim
9	**Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **01.08.18**